

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIUYD A'R NOS LUN 25AIN O EBRILL 2022 YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL: Y Cynghorwyr Ceri Davies (Cadeirydd), Philip Williams, Rhian Evans, Bari Evans, Arwel Davies, Geraint Jones ynghyd a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Elfed Williams, Hywel Davies, Falmal Evans ynghyd a'r Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch.

3. DDATGAN DIDDORDEB.  
Cynghorydd Bari Evans are item 13A isod.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.  
Cadarnhawyd cofnodion 28ain o Fawrth 2022 yn gywir gan y Cynghorwyr yn bresennol.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION SYDD DDIM AR YR AGENDA.  
A. Mae'r Cynghorydd Arwel Davies am ddsbarthu lluniau (at y Clerc) rhai o'r problemau ffyrdd y plwyf sydd eisiau sylw.

6. ARWYDDION PENTRE' LLANRHAEADR.  
A. Arwyddion wedi eu talu ar ôl derbyn yr anfoneb Cyngor Sir Ddinbych am £3,570.00.  
B. Nid dderbyniwyd unrhyw rodd oddi wrth Sheppard Homes am gyfraniad arian tuag at gostau'r arwyddion.

7. PANEL WYBODAETH YN LLANRHAEADR.  
Derbyniwyd gwybodaeth ar gychwyn y cyfarfod oddi wrth unigolyn o'r gymuned fod rhan o'r wybodaeth ynghyd ar leoliad ddim yn y lle cywir. Cytunodd yr aelodau'r Cyngor i drafod y sylwadau gyda'r Cynghorydd Elfed Williams i drafod y sylwadau ymhellach.

8. ETHOLAETH Y CYNGOR AR 05.05.2022.  
Adroddwyd y Clerc fod pum aelod yn unig sydd wedi ymgeisio am yr 10 sedd sydd yn bodoli ar y Cyngor. Mi fydd y broses o gyfethol y pum sedd wag yn cychwyn yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

9. GWELYAU BLODAU YN Y GYMUNED.  
Chadarnhawyd Gwenfyl Jones a Catrin Roberts mi fyddent yn plannu gwerth £200 yr unigolion ar "Gwelyau Blodau".

10. GOEDEN NADOLIG YN GYNNWYS GOLEUADAU NADOLIG YN Y GYMUNED.  
Cytunodd y Cynghorydd Geraint Jones trefnu cyfarfod safle gyda Mr Wilson o'r Cyngor Sir Ddinbych i gytuno safle'r Goeden Nadolig y gymuned.

11. HYSBYSFWRDD SARON.  
Cytunodd y Cynghorydd Arwel Davies i gael prisiau adnewyddu'r hysbysfyrdau yn Saron erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor.

## 12. MATERION CYLLID.

A. Datganiad banc £12,776.49.

B. Rhoddwyd awdurdod i'r taliadau canlynol-

1. BHIB Insurance Limited – Yswiriant blynyddol y Cyngor £550.85.

2. Cyngor Sir Ddinbych am ddau arwydd “Pentre’ Llanrhaeadr” £3,570.00.

## 13. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A: Cais/23/2021/0802 - Dymchwel adeiladau fferm segur bresennol, codi adeilad ar gyfer llety gwyliau. Gosod gwaith trin pecyn a gwaith cysylltiedig ar adeilad allanol, gyferbyn a Tan-y-ffron, Llanrhaeadr - Penderfynwyd ail wrthwynebu'r cais cynllunio oherwydd:-

“1. The current farm building is made up of four posts covered by tin sheets and therefore not considered to be a redundant building.

2. The current one storey redundant shed will be demolished and be replaced by a two storey building at a different location to the current building.

3. The proposed new building would not be in keeping with the existing building.

4. The proposed new build would set a precedence which should not be allowed.

5. The proposed planning application would be against the Denbighshire County Council Planning Policy on new build in the open countryside.

6. The proposed tree survey has not been provided.”

B. Cais 23/2022/0319 - Datblygu 0.5ha o dir trwy godi 6 annedd tai cymdeithasol (cais amlinellol gan gynnwys mynediad) ar dir ym Mhenbryn Llan, Llanrhaeadr - “Nid oes gan Gyngor Cymuned Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch unrhyw wrthwynebiad i'r cais cynllunio yn y pwnc uchod, ac rydym yn croesawu'r cais am dai fforddiadwy yn yr ardal.

Os yn llwyddiannus, byddai'r Cyngor Cymuned yn awyddus iawn i gydweithio gyda'r Cyngor Sir a'r ymgeisydd i sicrhau amodau digonol ar yr eiddo er mwyn eu bod yn diwallu'r angen am gartrefi fforddiadwy i bobl leol, ac yn gwarchod y diwylliant a'r iaith Gymraeg yn yr ardal. Er gwybodaeth, nid yw'n ymddangos fod rhywfaint o'r man gwyrdd ar ben palla'r cynllun o fewn ffin yr LDP, mae'n bosib fod angen gwirio'r ffiniau.”

## 14. GOHEBIAETH.

Nid oedd yna unrhyw ohebiaeth eraill i'w ddatgan.

## 15. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Nid oedd y Cyngorydd Sir Ddinbych yn bresennol yn y Cyfarfod.

## 16. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Derbyniwyd adroddiad twll yn y ffordd wrth Rossa Fawr ym Mhrion.

## 17. CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR - NOS LUN 23AIN O FAI 2022 YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.00 O'R GLOCH.